Cygor Cymuned Pentir

Cyngor Cymuned Pentir

# Cofnodion Cyngor Llawn Nos Iau 12fed o Fawrth 2026 yn y Ganolfan Penrhosgarnedd am 7.00

1. **Presennol: /Present** Cyng I Ellis Cadeirydd, Cyng C W Owen Is Gadairydd; Cyng J Pierce; Cyng L A James; Cyng D Jones-Morris; Cyng G Owen; Cyng E Roberts a'r Clerc
2. **Ymddiheuriadau: Apologies**
   Cyng J Griffiths; Cyng A Joyce; Cyng H Griffiths; Cyng B Jones a Cyng M Jones;
3. **Croeso / Welcome**
   Croesawodd y Cadeirydd bawb oedd bresennol i achlysur hanesyddol i'r Cyngor sef cyfarfod cyntaf o'r Cyngor yn ei 'gartref' newydd yn Penrhos sef y Ganolfan newydd hir ddisgwyledig ag sydd wedi bod yn sefyll yn wag am gymaint o amser
4. **Datgan buddiant / Declaration of interest**
   Cyng J Pierce yn datgan buddiant ei bod yn aelod o Clwb y Garnedd a Cylch Merched Glasinfryn sydd hefo ceisiadau nawdd
   Cyng L A James yn datgan ei bod yn ymddiriedolwr ar elusen yr 'hen ganolfan' ond yno mae hi yn cynrychioli y Cyngor
5. **Derbyn cofnodion / Accept Minutes 12fed o Chwefror / February 2026**
   Derbynwyd fel cofnodion cywir ar gynnig Cyng L A James gafodd ei eilio gan y Cyng D Jones-Morris

6. Materion yn codi o'r cofnodion / Matters arising
   **GwyrddNi – Bioamrywiaeth**
   Er na fu cychwyn ar y ddol flodau gwyllt yn y fynwent mae Cwmni lleol oedd wedi prisio ar ein cyfer wedi datgan eu bod yn fodlon planu bylbiau yng nghysgod y wal lon ag yn holi/croesawy unrhyw un fyddai yn hapus i wirfoddoli hefo nhw
   Mae ffenestr newydd am grant o £7K wedi agor. Cytunwyd i ail gyflwyno ein cais am y ddol flodau gwyllt ag hefyd i ymestyn y prosiect i rannau eraill o ardal Pentir
   **Clerc i holi a thrafod gyda'r Cwmni lleol am syniadau**
   **Unrhyw syniad am brosiect addas arall i'w anfon mlaen at y Clerc**
   **Cyfrifon banc**
   Cyfrif Cyfredol ar lein wedi ei gwblhau a'r Clerc yn disgwyl pecyn croesawy drwy'r post
   Bydd rhaid ail gychwyn y cyfrif ar gyfer y ganolfan newydd gan fod angen tystiolaeth o'i lleoliad Hynny er bod ein cais wedi ei anfon hefo llun o'i lleoliad
   Clerc wedi cysylltu ac wedi cael cadarnhad y bydd llythyr panawd a chadarnhad gan gyfrifydd yn ddigonnol gan nad oes gennym hyd yma unrhyw 'anfoneb cyflenwada'
   **Ffurflen Llogi/talu Ganolfan newydd**
   Cyng C W Owen wedi bod yn ymchwilio a thrafod hefo Delwedd ynglyn a chael ffurflenni dwy-ieithog ar gyfer llogi ag o bosib talu ar lein Sustem 'Hallmaster' i weld yn addas ond uniaith saesneg
   **Cytunwyd i Cyng Owen gysylltu eto a Delwedd i'w gwahodd i gyfarfod yr Is-Grwp**

7. **Materion ariannol / Financial Issues**

   i. **Mantolen ariannol / Financial report**

Cafodd y fantolen ei rhannu yn dangos bod £3,110.67 yn y cyfrif Cyfredol a £42,257.43 yn y cyfrif Cadw Derbynnwyd y fanolen

**ii. Cofnodion cyfarfod IBC / Minutes of S F C 26/02/2026**

3 cais am nawdd wedi ei dderbyn gan Cylch Glasinfryn Grwp Ioga a Gwyl Gerdd-dant fydd ymlaen eleni yng Nghaernarfon 2 gais ychwanegol wedi ei dderbyn v. a vi isod Argymell cyfrannu £300 i'r cyfan **Clerc i drefnu**

G Hughes ein contractwr hefo'r bocsus bloda yn dymuno ymddeol ddiwedd Mawrth

**Pawb i holi os oes yna gontractwr lleol**

Adnewyddu Bocsus bloda

Bocs Treborth a Capel Graig angen ei adnewyddu

**Clerc i drefnu**

**iii. Traelia Aelodau**

Dosbarthwyd traelia pawb oedd yn bresennol a derbynwyd ffurflen yn cadarnhau ei derbyn

**Clerc i drefnu bod y gweddil yn cael ei postio**

**iv. Bil Trydan capel bach**

Bil uchel iawn mis yma gan fod y gwresogyddion wedi eu gadael mlaen ddydd a nos Angen edrych am gyflenwyr lle mae'r pris unedau yn is ond bydd ei tal sefydlog yn uwch

**v. Cais Nawdd Grwp Arlunio Glasinfryn** Cytuno i gyfranu £300

**vi. Cais Nawdd Clwb y Garnedd** Cytuno i gyfranu £300

vii. **Polisia** Dim newid/addasu mis yma

## 8. Cynllunio / Planning

Un cais hwyr yn cyrraedd ar gyfer Ysbyty Gwynedd C26/0160/25/LL Gosod adeilad modiwlaidd i weithredu fel canolfan ddata i gefnogi prif safle'r ysbyty. **Dim gwrthwynebiad**

## 9. Materion y Clerc / Topics from the Clerk

- **Adeilad Intec / Ganolfan**

Gryn dipyn o ail-drefnu wedi gorfod digwyd a bellach rhai defnyddwyr yn defnyddio y ddau safle oherwydd ein bod erbyn hyn wedi derbyn 'trwydded dros dro' sy'n ein galluogi i wneud defnydd yn hytrach na trwydded i ddangos y safle Rhaid i'r defnyddwyr yma sylweddoli y daw amser na fydd posib wneud defnydd o unrhyw fath o'r maes parcio

- **Grant GwyrddNi**

Ail ffenestr wedi agor erbyn hyn a uchafswm eleni yn £7k Cytunwyd ail afael yn ein cynllun i sefydlu 'dol flodau gwyllt' yn fynwent a gofynn i'r Cwmni os byddai posib iddynt ddod i fyny hefo cynllun i 'flodeuo' ardaloedd eraill o fewn y plwyf **Clerc i gysylltu**

- **Grantia yn gyffredinnol**

Mark Gahn o cyngor Gwynedd wedi cysylltu yn hybu grantiau allai fod ar gael i Gynghorau Cymuned. **Clerc i estyn gwahoddiad i Marc ddod draw i drafod ymhellach**

## 10. Materion y Cynghorwyr / Councilors Topics

**Cyng H Griffiths** **Cylchfan Tesco yn achosi problemau Traffig**

Er nad yw o fewn ein ardal mae problemau traffig yn aml iawn ar y gylchfan fechan wrth Tesco gan fod bellach lawr mwy o draffig yn sgil caniatad roddwyd i ddau Fasnachwyr 'bwyd cyflym' gael ei ganiatau a weithia gorfod aros yn hir iawn cyn gallu ymuno a'r ffordd fawr

## 11. Newyddion

Parhau i hysbysebu'r ganolfan

**Daeth y cyfarfod i ben am 9.00**

Cyngor Cymuned Pentir

# Cyngor Llawn Nos Iau 09fed o Ebrill 2026
# yn y Ganolfan Penrhosgarnedd am 7.00
# Agenda

1. **Presennol: /Present**

2. **Ymddiheuriadau: Apologies**

3. **Croeso / Welcome**

4. **Cyflwyniad gan Iwan Ap Trefor swyddog traffig Gwynedd am ardal Penrhos**

5. **Datgan buddiant / Declaration of interest**

6. **Derbyn cofnodion / Accept Minutes 12fed o Fawrth / March 2026**

7. **Materion yn codi o'r cofnodion / Matters arising**

8. **Materion ariannol / Financial Issues**
    i. **Mantolen ariannol / Financial report**
    ii. **Cofnodion cyfarfod IBC / Minutes of S F C 26/03/2026**
    iii. **Polisia**

9. **Cynllunio / Planning**

10. **Materion y Clerc / Topics from the Clerk**
    - **Diweddariad / Ganolfan newydd ag Intec**
    - **Grant GwyrddNi**
    - **Grantia yn gyffredinnol Mark Gahan**

11. **Materion y Cynghorwyr / Councilors Topics**

12. **Newyddion**